**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Aelodau'r Cynulliad

12 Gorffennaf 2017

Annwyl Aelod Cynulliad

Yn dilyn cwestiynau a godwyd yn y Cyfarfod Llawn rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi diweddariad ar Coilcolor Ltd yng Nghasnewydd.

Mae fy swyddogion wedi bod yn rhan o drafodaethau agos â'r cwmni ers i adeilad y cwmni wynebu llifogydd ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn brydlon bob amser wrth ymdrin â'r achos hwn.

Gwnaethom hwyluso cymorth gan Cyllid Cymru ar gyfer Coilcolor ym mis Rhagfyr, a hynny er mwyn galluogi'r cwmni i fanteisio ar gymorth ariannol. Canlyniad hyn oedd fod y cwmni wedi gallu parhau i fasnachu tra'n hawlio o dan ei bolisi yswiriant. Ystyriwyd yr holl fathau posibl o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, ond gan fod y cymorth a dderbyniwyd gan Cyllid Cymru wedi dod drwy eu cronfa Achub ac Ailstrwythuro, nid oedd modd i ni gynnig rhagor o gymorth ariannol gan y byddai hynny'n mynd yn groes i reolau ynghylch cymorth gwladwriaethol. Ni chafodd unrhyw daliad heb ragfarn ei addo gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth gyfreithwyr Coilcolor ar y dechrau mewn perthynas â hawliad am oddeutu £600,000. Gwnaethom gynnwys cyfreithwyr allanol, a wnaeth wahodd manylion ynghylch yr hawliad, ond ni wnaeth y cwmni fwrw ymlaen â'r hawliad. Rydym wedi'n hysbysu am hawliad arall, sy'n gysylltiedig â thaliad a wnaed i landlord yr adeilad, sydd werth cyfanswm o £58,000. Nid yw cyngor cyfreithiwr Llywodraeth Cymru wedi newid, sef na ddylem gymryd unrhyw gamau, na gwneud unrhyw daliadau mewn perthynas â'r hawliad na'r adeilad hyd nes y byddwn yn derbyn rhagor o fanylion, gan gynnwys sail y ddau hawliad.

Fe'n hysbyswyd ar 10 Gorffennaf fod y cwmni'n bwriadu mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ac rydym yn aros am ragor o fanylion am hyn. Rydym, fodd bynnag, yn parhau'n barod i gynnig pob cymorth posibl i'r cwmni a'r gweithwyr.

Yn gywir

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.